[Eich cyfeiriad]

Annwyl [Ymgeisydd Cyngor]

Etholiadau Lleol 2008: Ceiswyr lloches a ffoaduriaid

Fel ymgeisydd yn Etholiadau Lleol 2008, rwy'n ysgrifennu i ofyn i chi ddatgan eich cefnogaeth i sirchau nad yw materion lloches a ffoaduriaid yn cael eu defnyddio mewn modd negyddol yn ystod yr ymgyrch. Rydym yn ffodus bod arweinwyr y pedair prif blaid yng Nghymru wedi cytuno i gefnogi'r ymgyrch hon, a'r gobaith yw y byddwch yn gallu datgan eich cefnogaeth fel a ganlyn:

"Rwy'n datgan na fyddaf yn defnyddio delweddau negyddol o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn yr ymgyrch etholiadol sydd ar ddod. Byddaf yn ceisio hyrwyddo gwell dealltwriaeth o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru."

Gwnaeth llawer o ymgeiswyr etholiadau'r Cynulliad yn 2007 ymrwymo i addewid tebyg, ac roedd hi'n galondid gweld bod pob ymgeisydd prif ffrwd yn trin y materion hyn mewn modd cymedrol a phwyllog.

Rwy'n credu'n gryf y dylem groesawu ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'u helpu i ailadeiladu eu bywydau yng Nghymru, a'm gobaith yw y byddwch chi, fel fy ymgeisydd lleol yn yr etholiad sydd ar ddod, yn gwneud yr un fath.

Gallwch lawrlwytho taflen am faterion ffoaduriaid a lloches o'r wefan - gwlad i mi a gwlad i ti (www.keepawelcome.co.uk). Mae'n cynnwys gwybodaeth gefndir ac ystadegau ac mae'n helpu i chwalu rhai o'r camargraffiadau am geiswyr lloches yng Nghymru.

Os hoffech ddatgan eich cefnogaeth, anfonwch e-bost i

policyandcommunications@welshrefugeecouncil.org

Diolch am eich cefnogaeth.

Yn gywir

[eich enw]